Teithiau Cerdded

9 Mynydd Pen-y-fâl wrth ymyl Y Fenni







Mae'r daith hyfryd hon i fyny at Ben-y-fâl yn werth pob ymdrech! O sawl cyfeiriad, mae'r mynydd yn debyg i siâp côn siwgr neu hyd yn oed folcano (ond, wrth gwrs dydy o ddim!).

Taith fer sydd i'r copa, ac ar ddiwrnod clir, gallwch chi weld bryniau mor bell i'r gogledd â Sir Amwythig, ac mor bell i'r de â Gwlad yr Haf, a llawer o fynyddoedd mawr Bannau Brycheiniog. Islaw Pen-y-fâl, mae'r Fenni'n cysgodi - tref farchnad ddiddorol iawn gyda'i neuadd farchnad a'i chastell, a llawer man arall i grwydro o amgylch.

Gwybodaeth

Lleoliad
Map Explorer OL 13 neu Fap Landranger 161 Cyfeirnod Grid: SO 268 167. Man cychwyn – y maes parcio ar Fynydd Llanwenarth islaw Pen-y-fâl.
Gwelwch tud. 2 am fwy o wybodaeth.

Pellter
3 milltir/ 5km. Llethr am 268m.

Amser
2-3 awr


Tir
Mae llwybrau llydan, glas ar y llethrau - mae'r llethr i fyny ac i lawr yn raddol a chyson. Wrth agosáu at y copa, bydd y llethr yn fwy serth. O amgylch y copa, mae'r tir yn anwastad a chreigiog. Gall fod yn llithrig ar dywydd gwlyb, felly byddwch yn ofalus, a chadw at y llwybrau. Does dim gatiau/camfeydd, ond dydy'r llwybr ddim yn addas ar gyfer cadair olwyn neu sgwter.

Gradd Egnïol

Sylwch

Ddylech chi ddim mentro i fyny Pen-y-fâl heb ddillad ac esgidiau addas, map a chwmpawd, a gwybodaeth am chwilio-llwybr, yn enwedig ar dywydd gwael. Gall chwilio-llwybr fod yn anodd mewn tywydd gwael, felly gwiriwch ragolygon y tywydd cyn cychwyn.

www.metoffice.gov.uk/public/weather/mountain-forecasts/breconbeacons#?tab=mountainWeather



© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. © Hawlfraint y Goron a hawliau basdata 2016 Mapiau'r Ordnans 01000 19322.

O'r Gogledd

Ewch tuag at Y Fenni ar hyd yr A40, yna cymryd y chwith cyntaf ar ôl mynd heibio i dafarn y Lamb and Flag, i fyny ffordd gul ag arwydd Gwinllan Pen-y-fâl (Sugarloaf Vineyard).

O'r De

Dilynwch yr A40 (arwydd am Aberhonddu) allan o'r Fenni, heibio i Ysbyty Nevill Hall ar eich chwith. Yn fuan ar ôl yr ysbyty, cymerwch y ffordd gul tuag at Winllan Pen-y-fâl, sydd ar y dde i chi.

Nesa

Dilynwch yr arwyddion am y Winllan, a chymryd y chwith nesaf, a'r chwith wedyn. Byddwch yn mynd heibio i'r Winllan ar y dde i chi NP7 7LA. Ewch ymlaen ar hyd y ffordd hon ac i fyny bryn serth. Ar ôl bachdro llym i'r chwith, bydd y ffordd yn fforchio. Ewch am y ffordd ar y dde gyda'r arwydd 'P'. Ar ôl tua 1 km, fe welwch chi faes parcio mawr ar y chwith. Dyma'r man cychwyn.

Ar eich ffordd adref, efallai y byddai'n well gennych chi ddal ymlaen heibio'r winllan a pheidio â throi i'r dde. Yn lle hynny, gallech ddilyn y ffordd nes i chi gyrraedd cyffordd Ffordd y Capel. Trowch i'r dde yma, a dilyn Ffordd y Capel nes iddi ymuno â'r A40. Fe ddewch allan bron gyferbyn â Thafarn y Rheilffordd.

1 Cyfeirnod Grid: SO 268 167. Ar ochr ogleddol y maes parcio, mae arwydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a gwybodaeth am y daith ac am fyd natur yr ardal. O'r fan honno, mae llwybr amlwg yn mynd ar y chwith wrth i chi edrych ar yr arwydd (yn union i'r gogledd).

2 Cyfeirnod Grid: SO 266 172. Mae'r llwybr yn mynd heibio i gornel wal gerrig. Wrth i chi ei chyrraedd, fe ddylech chi allu gweld Pen-y-fâl (ar ddiwrnod clir) ar eich ochr dde. Ewch ymlaen, ac fe ddewch chi at gornel arall o'r wal gerrig. Ymhen ychydig, bydd y llwybr yn fforchio. Ewch ar y llwybr i'r dde ac ymlaen ar eich taith.

3 O'ch blaen (dal yn union i'r gogledd), gallwch weld arglawdd wedi ei godi, sy'n arwain at y copa. Ewch tuag at yr arglawdd, ac fe welwch chi lwybr llai sy'n croesi'ch llwybr chi. Ewch yn syth ymlaen. Yn fuan, fe ddewch chi ar draws llwybr arall, mwy, sy'n croesi'ch llwybr chi. Cymerwch y llwybr ar y chwith, a mynd tuag at yr arglawdd.

4 Cyfeirnod Grid: SO 265 181. Dyma lle mae eich llwybr chi'n cyrraedd yr arglawdd. Dilynwch yr arglawdd i fyny'r bryn, ac, yn y pen draw, fe ddewch chi i'r copa, yn agos at y piler triongli. **1.Mae 500 metr olaf y llwybr hwn yn mynd yn fwyfwy serth ac anwastad, ac mae'n hawdd llithro yno. Felly, cymerwch ofal!**

5 Cyfeirnod Grid: SO 272 188. Dyma gopa Pen-y-fâl, 596m uwchben lefel y môr. Ar ochr ddeheuol y copa (wrth edrych yn ôl tuag at y maes parcio), mae llwybr amlwg yn eich arwain chi i lawr. **Cofiwch ei fod yn serth iawn, a phridd chwâl mewn mannau.** Pan fydd y llwybr yn fforchio, ewch ar y dde. Ewch yn syth ymlaen pan fydd llwybr arall yn croesi eich llwybr chi.

6 Cyfeirnod Grid: SO 266 179. Yn y diwedd, fe ddewch chi'n ôl at y llwybr y cychwynnoch chi o'r groesffordd arall. Gallwch ddilyn y llwybr hwn yn ôl at gorneli'r wal gerrig eto, a dychwelyd o'r diwedd i'r maes parcio.

Amrywiadau

Taith fyrrach Pellter: 2.1 milltir /3.5km
Yn 4, (Cyfeirnod Grid: SO 262 181), yn lle dilyn yr arglawdd i fyny'r bryn, ewch ar y llwybr sy'n gwyro i'r dde wrth i chi edrych tuag at Ben-y-fâl (i'r dwyrain). Ar groesffordd nesa'r llwybr, ewch i'r dde eto a dilyn y llwybr yn ôl i'r man cychwyn.
Taith hirach Os ydych chi'n defnyddio cludiant cyhoeddus, mae'n bosib cael taith hirach a dechrau o'r Fenni (9 milltir/14.5 km).
www.breconbeacons.org/explore/things_to_do/walking/where_to_walk/longer_walks/sugar_loaf_from_abergavenny

Gweithgareddau addas ar y daith hon

Ymarfer chwilio-llwybr, ffotograffiaeth, gwylio adar.

Mynydd Pen-y-fâl wrth ymyl Y Fenni

1. Craig-y-nos
2. Talybont
3. Taf Fechan
4. Pontneddfechan
5. Llangorse
6. Pen-y-crug
7. Twyn-y-gaer
8. Llanfoist
9. Sugar Loaf Mountain
10. Cribarth



© Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
© Hawlfraint y Goron a hawliau basdata 2016 Mapiau'r Ordnans 01000 19322.

Pwrpas y llyfryn hwn yw hyrwyddo twristiaeth. Mae'r mapiau yn y llyfryn hwn wedi'u cynnwys drwy ganiatâd © Hawlfraint y Goron a hawliau basdata 2016 Mapiau'r Ordnans 01000 19322. Nid oes caniatâd i gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu neu werthu unrhyw ran o'r data yma mewn unrhyw ddull i drydydd parti.

Gwybodaeth Bellach

Parcio Mae'r maes parcio am ddim, ac mae lle i fws-mini. Gall fod yn le prysur iawn ar rai adegau o'r flwyddyn. Mae'r ffyrdd ato'n gul, felly byddai unrhyw gerbyd sy'n fwy na bws-mini yn cael anhawster i fynd at y maes parcio.

Lluniaeth a Thoiledau Mae'r man cychwyn yn agos at dy tafarn y Lamb and Flag **www.lambflag.com** neu mae digon o gaffis/tafarndai yng nghanol tre'r Fenni. Mae siop a chaffi yn y 'Sgubor Ddegwm' ar agor Dydd Llun- Dydd Sadwrn 9am - 4pm.
www.stmarys-priory.org/tithebarn Yn y 'Sgubor Ddegwm' hefyd, mae Canolfan Wybodaeth y Parc Cenedlaethol i Ymwelwyr (ar agor Dydd Llun – Dydd Sadwrn 10am -2 pm) Ffôn: 01873 853254
www.breconbeacons.org/abergavenny-tourist-information
Mae'r toiledau agosaf yn nhafarn y Lamb and Flag os ydych chi'n aros yno am luniaeth. Fel arall, mae'r toiledau cyhoeddus agosaf yng ngorsaf bws Y Fenni, ar Ffordd Mynwy, neu ym maes parcio Stryd y Castell, neu ar gyffordd Stryd Frogmore a Stryd y Frenhines.

Cludiant Cyhoeddus www.traveline.cymru
Allwch chi ddim cyrraedd y man cychwyn gyda chludiant cyhoeddus. Sut bynnag, mae gorsaf drenau yn Y Fenni, ac mae'r bysys i gyd yn diweddu eu taith yn y brif orsaf bysys. (Gweler opsiwn y daith hirach). Mae'n bosib hefyd dal bws i Ysbyty Nevill Hall wrth ymyl y troad am y Winllan.

Tref agosaf Y Fenni. Y cyfleusterau i gyd.

Gwefannau
www.breconbeacons.org
www.nationaltrust.org.uk/sugarloaf-and-usk-valley
www.abergavenny.org.uk
www.visitabergavenny.co.uk
www.sugarloafvineyard.co.uk/sugarloaf

Cŵn Addas ar gyfer cŵn. Rhaid cadw cŵn ar dennyn wrth ymyl da byw, a rhwng Mawrth 1af a Gorffennaf 31ain ar Dir Mynediad Agored.

Enghraifft o Daith Diwrnod

10.30	Cyrraedd y maes parcio a chwblhau'r daith.
12.30	Picnic allan neu fynd i'r Fenni am ginio.
1.30	Ymweld â'r ganolfan hanes lleol a'r arddangosfeydd yn y 'Sgubor Ddegwm' www.stmarys-priory.org/tithebarn neu ymweld â Chastell Y Fenni a'r Amgueddfa yno www.abergavennymuseum.co.uk